

101204 No Second Chances - Level Crossings_Welsh_A5 Flyer_Commuter (2) KH.indd 1 13/07/2026 16:36

DIM AIL GYFLE

Mae gadael i'ch meddwl grwydro ar groesfan wastad yn gallu arwain at ganlyniadau tyngedfennol. Peidiwch â gadael i unrhyw beth dynnu'ch sylw oddi ar eich diogelwch.

Mae croesfannau gwastad wedi'u llunio i'ch helpu i groesi'r rheilffordd ac i'ch cadw'n ddiogel. Dilynwch y camau isod i groesi'n ddiogel bob tro.

1 STOPIWCH A DARLLENWCH YR ARWYDDION

Mae pob croesfan wastad yn wahanol. Dilynwch y cyfarwyddiadau – maent yna i'ch cadw'n ddiogel.

2 EDRYCHWCH A GWRANDEWCH

Mae rhai croesfannau'n dibynnu ar eich gallu i weld a chlywed trenau.

Edrychwch i'r ddau gyfeiriad pob tro y byddwch yn defnyddio'r groesfan. Peidiwch â chroesi os yw trên yn nesáu.

Lle mae goleuadau, rhwystrau neu larymau wedi'u gosod, sicrhewch eich bod yn deall eu hystyr a dilynwch eu cyfarwyddiadau bob amser. Os yw'r groesfan wedi cychwyn, peidiwch â chroesi.

3 TALWCH SYLW BOB AMSER

Rhowch eich sylw llawn i'r groesfan.

Peidiwch â defnyddio unrhyw beth sy'n tynnu sylw, fel ffonau neu glustffonau, yn ymyl y groesfan.

Gall trenau ddod o unrhyw gyfeiriad. Gallai trên arall gyrraedd ymhen munudau.

4 CROESWCH YN GYFLYM AC YN OFALUS

Peidiwch â chroesi oni bai fod yr holl draciau'n glir.

Ar ôl cadarnhau ei fod yn ddiogel i groesi, croeswch yn gyflym a pheidiwch ag oedi ar y groesfan.

SGANIWCH I DDYSGU MWY

COFIWCH

- Mae trenau sy'n nesáu atoch bron yn gwbl ddistaw.
- Gallant gyrraedd ar unrhyw adeg.
- Nid yw trenau'n gallu troi neu stopio'n gyflym.
- Gall trenau fod yn teithio'n gynt nag y byddech yn ei ddisgwyl, hyd at 125mya, ac yn cymryd dros filltir i stopio.
- Croeswch yn gyflym a pheidiwch byth ag oedi ar groesfan wastad.